
Prosiect menter ar y cyd sy'n cael ei ddatblygu gan

RWE

y diweddaraf o'r

# ystafell newyddion

Mawrth 2023



Fferm Wynt Alltraeth

AWEL Y MÔR

Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

# croeso

Mawrth 2023

## Croeso i rifyn nodedig o gylchlythyr Awel y Môr.

Mae cau'r archwiliad i'n ceisiadau am ganiatâd datblygu yn garreg filltir bwysig, gyda thîm y prosiect bellach yn aros yn eiddgar am benderfyniad gan Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Net Zero.

Yn y rhifyn hwn fe welwch wybodaeth am sut mae'r archwiliad wedi datblygu a'r camau nesaf yn y broses.

Mae newyddion hefyd am ymweliad â'r safle peirianneg newydd gwerth £12.2 miliwn sy'n cael ei ddatblygu gan Grŵp Llandrillo Menai, a allai groesawu technegwyr tyrbinau prentis yn y dyfodol.

Gyda gallu cynhyrchu sy'n cyfateb i bweru dros 500,000 o gartrefi, mae Awel y Môr yn elfen allweddol o strategaeth diogelwch ynni Llywodraeth y DU, sy'n targedu defnyddio digon o wynt ar y môr i bweru pob preswylfa ar draws Cymru, Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn 2030.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau i dîm y prosiect, ar unrhyw adeg, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy ddefnyddio'r manylion a geir yn y cylchlythyr hwn.



Awel y Môr team at Drum near Llanfairfechan



## Cau'r Archwiliad i Awel y Môr

Mae cynigion ar gyfer buddsoddiad mwyaf Cymru y ddegawd hon ym maes ynni adnewyddadwy yng Nghymru wedi cyrraedd carreg filltir bwysig wrth i'r broses o archwilio'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

Bwriedir adeiladu fferm wynt Awel y Môr oddi ar arfordir gogledd Cymru. Mae'r gwaith datblygu yn cael ei arwain gan RWE, sef y cynhyrchydd mwyaf o ynni adnewyddadwy yng Nghymru.

Bydd Arolygiaeth Cynllunio'r DU nawr yn paratoi ei adroddiad argymhellion, ac mae'r broses yn gofyn am i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net wneud penderfyniad cyn pen chwe mis.

Os caiff ei hadeiladu, bydd y fferm wynt yn cynnwys hyd at 50 o dyrbinau gydag uchder o 332m ar y mwyaf hyd at flaen y rotor, a bydd yn gallu cynhyrchu pŵer sy'n cyfateb i'r ynni y mae hanner miliwn o gartrefi yn ei ddefnyddio.

Roedd yr archwiliad yn ymdrin ag ystod enfawr o bynciau, gan gynnwys yr effaith weledol hyd at ei hadeiladu, yr effaith ar bysgodfeydd, y seilwaith ar y tir a rhagor.

Cafodd cannoedd o ddogfennau eu cyflwyno fel rhan o'r broses, gyda'r tîm yn treulio 25 o oriau mewn gwrandawiadau yn ystod y chwe mis diwethaf.

Meddai Tamsyn Rowe, arweinydd y prosiect: "Ar ôl rhoi'r fath ymdrech i mewn i'r archwiliad, mae cyrraedd y pwynt hwn yn y datblygiad yn gamp gwirioneddol i'r tîm.

"Byddwn nawr yn aros am y penderfyniad ar y gorchymyn cydsyniad datblygu gan Ysgrifennydd Gwladol y DU.

"Fel prosiect ar raddfa mor sylweddol, mae gan Awel y Môr y potensial i wneud cyfraniad mawr at darged Llywodraeth Cymru o gynhyrchu trydan adnewyddadwy sydd gyfwerth â 70 y cant o'r ynni a ddefnyddir gan bobl Cymru erbyn 2030.

"Mae gan Awel y Môr hefyd y potensial i roi hwb economaidd go iawn i'r rhanbarth, yn ystod y cyfnod o'i hadeiladu ond hefyd yn weithredol, fel y dangosir gan ffermydd gwynt blaenorol, sydd eisoes yn cynnal cannoedd o swyddi."



Tamsyn Rowe, project lead

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae gan Arolygiaeth Cynllunio'r DU dri mis i ddrafftio adroddiad argymhellion, a fydd yn cael ei gyflwyno wedyn i Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net.

Yna mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dri mis arall i wneud penderfyniad ar y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO), ac mae gofyniad y gwneir datganiad yn Nhŷ'r Cyffredin os bydd unrhyw oedi yn ei gylch.

Yn rhedeg ar yr un pryd â'r broses DCO, mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi bod yn ystyried ein cais am drwydded forol. Nid oes gan y broses hon amserlen statudol, ond y gobaith yw y gwneir penderfyniad yn fuan ar ôl y DCO.


Os yw'r ceisiadau DCO a'r drwydded forol yn llwyddiannus, y garreg filltir nesaf ar y ffordd i'r gwaith adeiladu fydd paratoi ar gyfer ocsiwn Contract ar gyfer Gwahaniaeth.

## Beth yw CfD?

Y cynllun Contractau ar gyfer Gwahaniaeth (CfD) yw prif fecanwaith y llywodraeth ar gyfer cefnogi cynhyrchu trydan carbon isel.

Mae CfDs yn rhoi amddiffyniad uniongyrchol rhag prisiau cyfanwerthu anwadal i ddatblygwyr, ac yn amddiffyn defnyddwyr rhag talu costau cynnal uwch pan fydd prisiau trydan yn uchel.

Wedi'u neilltuo trwy ocsiwn cais wedi'i selio, telir cyfradd wastad (wedi'i fynegeio) am y trydan maen nhw'n ei gynhyrchu dros gyfnod o 15 mlynedd.





# Digwyddiad cadwyn gyflenwi

Fel rhan o fenter newydd gyda'r nod o wella ymgysylltiad â chyflenwyr, bydd Awel y Môr yn cynnal ei diwrnod ymgysylltu â chyflenwyr cyntaf ym mis Ebrill.

Bydd hyn yn rhoi cyfle i fusnesau'r rhanbarth gwrdd ag aelodau o dîm y prosiect, wrth geisio cefnogi'r gwaith o adeiladu a gweithredu Awel y Môr.

Bydd y tîm hefyd yn lansio tudalennau gwe newydd a phlatfform ymgysylltu â chyflenwyr a fydd yn galluogi busnesau i gofrestru eu diddordeb a'u galluoedd cyn y broses gaffael, yn ogystal â dysgu gan fusnesau eraill sydd wedi gweithio ar brosiectau dan arweiniad RWE yn y gorffennol.

Cadwch lygad ar wefan Awel y Môr i gael y wybodaeth ddiweddaraf.



## Yr Arolygiaeth Gynllunio: Y Broses o Wneud Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu

rydym yma

Tua dwy flynedd

### Cyn ymgeisio:

Chwiliwch am wybodaeth yn y cyfryngau lleol ac mewn mannau cyhoeddus ger lleoliad y prosiect arfaethedig, fel eich llyfrgell. Bydd y datblygwr yn datblygu eu cynigion ac yn ymgynghori'n eang.

28 diwrnod

### Derbyn:

Mae gan yr arolygiaeth, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, 28 diwrnod i benderfynu a ydy'r cais yn cyrraedd y safonau angenrheidiol er mwyn symud ymlaen i'r cam archwilio gan gynnwys a ydy'r datblygwr wedi ymgynghori digon.

Tua 4 mis

### Rhag-archwilio:

Gallwch chi nawr gofrestru fel parti sydd â diddordeb; byddwch chi'n cael gwybod am hynt y cais a chyfleoedd i gyflwyno eich achos chi. Bydd arolygwyr yn cynnal Cyfarfod Rhagarweiniol ac yn llunio'r amserlen ar gyfer y gwaith archwilio.

6 mis

### Archwilio:

Gallwch chi nawr anfon eich sylwadau ysgrifenedig. Gallwch wneud cais i siarad mewn gwrandawiad cyhoeddus. Mae gan yr arolygiaeth chwe mis i gynnal yr archwiliad.

6 mis

### Penderfyniad:

Bydd yr arolygiaeth yn cyhoeddi argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol cyn pen tri mis. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol wedyn dri mis arall i gyhoeddi penderfyniad ynghylch y cynnig.

6 wythnos

### Ar ôl y penderfyniad:

Mae cyfle i herio'r penderfyniad yn gyfreithiol.



# RWE yn ymweld â chanolfan Beirianneg newydd



Daeth aelodau o dîm RWE ar ymweliad yn ddiweddar â'r ganolfan beirianneg newydd gwerth £12.2 miliwn a gafodd ei hadeiladu yn y Rhyl ar gyfer Grŵp Llandrillo Menai ynghyd â'r Aelod o'r Senedd, Carolyn Thomas.

Bydd y cyfleuster newydd, tri llawr, yn llawn gwerth dros £2m o'r offer hyfforddi arbenigol iawn diweddaraf, yn ogystal â 'Sefydliad Technoleg Ynni Adnewyddadwy' newydd, mewn partneriaeth â RWE.

Dywedodd Carolyn Thomas, Aelod o'r Senedd dros Ogledd Cymru: "Roedd hi'n wych ymweld â Choleg Llandrillo yn Y Rhyl i weld y ganolfan ragoriaeth beirianneg wych newydd sy'n cael ei hadeiladu.

"Roeddwn yn arbennig o falch i glywed am y bartneriaeth gyda RWE ynglŷn â datblygu sgiliau yn y coleg i gynnal y tyrbinau gwynt yma yng Ngogledd Cymru. "



Dywedodd Dafydd Roberts, a oedd yn bresennol ar ran RWE: "Roedd yn fraint gallu mynd gyda Carolyn Thomas AS i ymweld â'r cyfleuster newydd hwn, sydd o bwysigrwydd hanfodol i RWE wrth i ni geisio diwallu anghenion yr ymgyrch i sero net gyda gweithlu medrus iawn.

"Bydd hyn yn cynnwys hyfforddi pob un o'n technegwyr tyrbinau prentis ar gyfer y DU mewn partneriaeth â Grŵp Llandrillo Menai yma yn y Rhyl, i'r safonau uchaf posibl.

"Yn ogystal â safleoedd fel Gwynt y Môr, Clocaenog ac eraill ar draws y DU, gallai hyn gynnwys safleoedd newydd posibl, fel Awel y Môr a datblygiadau mewn gwynt arnofiol yn y Môr Celtaidd yn y dyfodol."